# CYNLLUN BUDDION CYFLOG GIG CYMRU AR GYFER PRYDLESU CAR

***fleet solutions***

*Gan y GIG ar gyfer y GIG*

**Cynllun Prydlesu Car**

Mae cynllun newydd aberthu cyflog yn cael ei lansio gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Mae'r cynllun yn gynllun prydlesu car ac wedi ei lunio er mwyn caniatáu i weithwyr gael car o'u dewis am bris atyniadol iawn.

Mae'r cynllun prydlesu car yn ein helpu ni i gynorthwyo staff yn eu rôl o ddarparu safon uchel o ofal am gleifion drwy eu galluogi i gael mynediad i fuddion gweithio i sefydliad mawr y GIG. Un yw hwn o blith nifer o fuddion staff sydd gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru i'w cynnig.

Bydd gan weithwyr sy'n ymuno â'r cynllun y boddhad o wybod eu bod hefyd yn cael car cost-effeithiol a 'didrafferth'.

Os oes diddordeb gennych mewn ymuno â'r cynllun, mae croeso i chi fynychu un o'r digwyddiadau sy'n cael eu trefnu ledled Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru neu gysylltu â NHS Fleet Solutions ar 0844 811 8228 am ragor o wybodaeth. Fe'ch atgoffaf chi hefyd i sicrhau eich bod yn darllen yr holl ddogfennau sy'n ymwneud â'r cynllun yn ofalus cyn i chi ymrwymo gan y gallai fod achosion lle nad yw'r cynllun yn cynnig buddion i rai aelodau o staff.

Gobeithio y byddwch yn ystyried y cynllun o fudd mawr.

Neil Frow
Cyfarwyddwr Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

# Y Cynllun Prydlesu Car

## Cyflwyniad

Mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru wedi lansio budd newydd i staff ar ffurf Cynllun Aberthu Cyflog er mwyn Prydlesu Car ar y cyd ag NHS Fleet Solutions.

Mae'r cynllun wedi ei lunio er mwyn darparu i holl staff parhaol Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru y cynnig o gael car newydd o'u dewis am bris cystadleuol iawn ac yn darparu arbedion i'r sefydliad a fydd yn gymorth i'r gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

## Trosolwg

Mae menter newydd Cynllun Prydlesu Car wedi ei lunio i'ch darparu chi a'ch teulu â char sydd wedi ei brisio'n gystadleuol ac sy'n ddidrafferth.

Nid oes angen blaendal ac mae'r costau'n rhai sefydlog ar gyfer pob elfen o'r brydles a fydd yn para am 3 blynedd. Caiff y car ei yswirio ar eich cyfer chi a hyd at bedwar o yrwyr a enwir (gan gymryd eu bod yn gymwys yn gyfreithlon i yrru).

Ar ddiwedd cyfnod y brydles, gallwch ddychwelyd y car heb unrhyw gost ychwanegol ar yr amod bod y cerbyd yn cwrdd â'r safonau dychwelyd gofynnol ac nad yw wedi teithio dros y milltiroedd y cytunwyd arnynt yn y cytundeb.

Bydd gweithwyr yn arbed arian trwy ddefnyddio'r cynllun aberthu cyflog, ar yr amod nad yw eu cyflog yn cael ei "aberthu" hyd at lefel sydd yn is na'r isafswm cyflog cenedlaethol. (Bydd cael car ar brydles yn golygu bod y gweithiwr yn atebol am dâl budd treth car ar sail y cerbyd a ddewisir.)

**a. Prisiau Cystadleuol**

Cafwyd pris cystadleuol trwy ddefnyddio pŵer prynu Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, ac yn wir y GIG, i sicrhau'r gallu i brydlesu ceir am y pris mwyaf cystadleuol. Mae hyn, ynghyd â'r potensial am arbedion pellach trwy'r defnydd o aberthu cyflog, yn golygu bod y cynllun yn darparu dewis atyniadol i'r rhan fwyaf o weithwyr.

**b. Dim blaendal**

Wrth gymharu'r cynllun â mathau eraill o gyllid cerbyd neu brydles bersonol, mae'n bwysig cofio nad oes angen unrhyw flaendal. Mae rhai cynlluniau masnachol yn dangos taliadau misol atyniadol ond maen nhw'n dueddol o ofyn am flaendaliadau eithaf sylweddol.

**c. Gwaith cynnal a chadw llawn wedi'i gynnwys**

Mae'r holl wasanaethu arferol a chostau trwsio sy'n codi o ddefnydd arferol o'r cerbyd wedi eu cynnwys yn y tâl. Mae hyn yn cynnwys treulio arferol o bibellau gwacáu, gosod batris newydd, hyd yn oed trwsio tyllau yn y teiars a gosod teiars newydd o ganlyniad i draul dderbyniol. Mae yswiriant torri lawr hefyd yn gynwysedig.

**ch. Yswiriant**

Mae yswiriant llawn yn gynwysedig yn y tâl misol. Os bydd y car yn cael ei ddefnyddio at ddibenion busnes sy'n wahanol i'r rhai sy'n ymwneud â'ch cyflogwr, bydd angen y manylion llawn ar Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a bydd angen i chi wneud trefniadau eraill o ran yswiriant.

Mae'r yswiriant cyffredinol yn cynnwys yswiriant ar gyfer y gweithiwr (o 17 oed i fyny) a hyd at 4 o yrwyr ychwanegol a enwir (ni ellir yswirio unrhyw yrwyr a enwir sydd o dan 21 oed ar y cerbyd ar hyn o bryd; fodd bynnag, mae trefniadau yswiriant ar wahân ar gyfer rhai o dan 21 oed ar y gweill).

**d. Cyllidebu'n ddidrafferth**

Mae'r cynllun aberthu cyflog misol (neu dâl misol o gyflog net) yn cael ei osod ar ddechrau'r cytundeb a chaiff ei ddal am holl gyfnod y trefniant. Mae hyn yn golygu, hyd yn oed os yw cyfraddau llog yn codi'n sylweddol neu os oes angen gwaith cynnal a chadw drud ar y car (ac eithrio unrhyw atgyweirio nad yw'n gynwysedig gan yr yswiriant neu sydd ei angen oherwydd camddefnydd neu esgeulustod), ni chaiff y tâl misol ei effeithio.

**dd. Cymhorthion gyrru ar gyfer gyrwyr anabl**

Gellir gwneud ychwanegiadau ac addasiadau gyrru anabl penodol i'r cerbyd. Mae angen gofyn am y rhain ar adeg y dyfynbris a'r gweithiwr fydd yn gyfrifol am dalu cost y cymhorthion/addasiadau hyn.

## e. Archebu hawdd a lefelau gwasanaeth uchel

Caiff tîm prydlesu ceir dynodedig ei gomisiynu gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a byddan nhw'n gweithio'n galed i sicrhau bod y broses archebu a derbyn eich car newydd mor llyfn â phosibl. Bydd y tîm hefyd yn eich cynghori a'ch helpu trwy'r broses o ddewis eich car, hyd at ei dderbyn ac ar sut i ddefnyddio eich car newydd.

Gellir cael dyfynbrisiau parod ar ein gwefan www.nhsfleetsolutions.co.uk.
Fel arall, mae'r tîm prydlesu ceir ar gael i helpu o ddydd Llun - ddydd Gwener yn ystod oriau swyddfa ar 08448 118228.

**Pwy sy'n gymwys?**
Rhaid bodloni'r meini prawf canlynol i fod yn gymwys ar gyfer y cynllun:

- Gweithiwr parhaol i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (caiff gweithwyr sydd ar gytundeb a fyddai'n sicr yn cynnwys y tymor prydles o 3 blynedd eu hadolygu'n unigol).
- Rhaid talu trwy'r cynllun Aberthu Cyflog neu drwy ddidyniad y cytunwyd arno o'ch Cyflog Net
- Cadarnhad o statws cyflogaeth
- Un car ar brydles i bob gweithiwr (fodd bynnag, mae trefniadau ar wahân ar y gweill)
- Nid yw'r car a ddewisir yn rhagori ar allyriadau o 140g/km Co2
- Ni ellir yswirio gyrwyr a enwir sydd o dan 21 oed ar gyfer y cerbyd

<u>Mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru'n cadw'r hawl i wrthod unrhyw gais</u>

**Gyrwyr**

Mae'n bosibl yswirio hyd at bedwar gyrrwr a enwir ar gyfer y car (mae angen tystiolaeth o drwydded. Ni ellir yswirio unrhyw yrwyr a enwir o dan 21 oed ar gyfer y cerbyd ar hyn o bryd).

## Sut mae'r trefniadau'n gweithio?

Dyma'r trefniant:

(a) Mae trefniant aberthu cyflog, yn syml, yn golygu trefniant ble mae'r gweithiwr yn cytuno i 'gyfnewid' elfen o gyflog gros er mwyn i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ddarparu'r gweithiwr â'r defnydd o gar cwmni newydd sbon. Yn unol â'r trefniadau hyn, caiff costau darparu car cwmni (gan gynnwys yr holl wasanaethu, atgyweiriadau, trwydded cerbyd modur, a chostau yswirio) eu talu gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Bydd y trefniant yn parhau am gyfnod prydles y car (fel arfer 3 blynedd).

(b) Ni fydd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn codi tâl ar y gweithiwr am ddefnyddio'r car a ddewiswyd gennych, ond yn hytrach, bydd y gweithiwr yn cytuno i ymrwymo i drefniant aberthu cyflog. Bydd y gweithiwr yn atebol am dalu cost treth incwm y car cwmni, sy'n codi o'r trefniant, yn sgil derbyn car cwmni.

(c) Bydd y trefniant hwn ar gael i weithwyr sydd â chytundeb cyflogaeth barhaol gyda Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn unig (fel a nodir yn yr adran sy'n diffinio pwy sy'n gymwys).

(ch) Mae'r trefniant yn digwydd yn gyfangwbl yn ôl doethineb Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a all dynnu'r cyfleuster yn ôl ar unrhyw adeg.

(d) Gall y gweithiwr ddewis cymryd rhan yn y trefniadau, ac nid ydynt, mewn unrhyw ffordd, yn orfodol.

# Enghreifftiau esboniadol o gostau posibl.

**Mae'r enghreifftiau canlynol yn esboniadol yn unig a bydd amgylchiadau personol yn dylanwadu arnyn nhw a dylid chwilio am ddyfynbrisiau personol bob amser wrth ystyried yr opsiwn hwn.**

## ENGHRAIFFT 1

**Mae gweithiwr yn dewis Peugeot 107 1.0 Access gyda 3 drws – 6,000 milltir y flwyddyn.**

Mae ei gyflog presennol yn £16,000 ac mae'n aelod o gynllun pensiwn y GIG. Bydd angen iddo wneud aberth cyflog blynyddol (o'i gyflog gros) o £2,778.84 (£231.57 y mis) ond bydd yn arbed £80.68 y mis mewn Cyfraniadau Yswiriant Gwladol a Chyfraniadau Pensiwn a Threth Incwm, o'i gymharu â'r sefyllfa ble mae cost y car cwmni yn cael ei ariannu o'i gyflog net. Mae hyn yn golygu bod y gost fisol wirioneddol tua £150.89 (dyma'r amcangyfrif o'r gostyngiad yn y tâl sydd yn y boced). O gyfuno'r swm hwn gyda'r rhwymedigaeth treth car cwmni ychwanegol o £14.97 y mis, cyfanswm cost net fisol y car yw £165.86.

Mae'r enghraifft isod yn esbonio, pe byddai'r gweithiwr yn ariannu cost y car o'i gyflog net, y gost fisol fyddai £311.57.

Mae'r enghraifft hon yn cynnwys cost prydlesu'r car, treth cerbyd, yswiriant llawn, yswiriant torri i lawr a'r holl gostau gwasanaethu a chynnal a chadw arferol.

| GYDA'R CYNLLUN ABERTHU CYFLOG | |
|---|---|
| Cost Flynyddol (aberth cyflog y flwyddyn) | £ 2,778.84 |
| Cost Fisol (aberth cyflog y mis) | £ 231.57 |
| Gostyngiad mewn Cyfraniadau Yswiriant Gwladol (y mis) | (£ 24.55) |
| Gostyngiad mewn Treth (y mis) | (£ 43.86) |
| Gostyngiad mewn Pensiwn (y mis) | (£ 12.27) |
| Cyfanswm y Gostyngiad (y mis) | (£ 80.68) |
| Gostyngiad mewn cyflog net (y mis) | £ 150.89 |
| Treth ar fuddion mewn da (y mis) | £ 14.97 |
| Cyfanswm Costau Net Misol Cyffredinol | ***£ 165.86*** |

HEB Y CYNLLUN ABERTHU CYFLOG (h.y. TRWY DDIDYNIAD CYFLOG)
Y gost gyfatebol ar gyfer yr un car cwmni trwy ddidyniad cyflog net fyddai **£311.57**

Mae'r gweithiwr felly'n arbed tua £146 y mis trwy'r cynllun aberthu cyflog (h.y. £312 - £166)

## ENGHRAIFFT 2

**Mae gweithiwr yn dewis Peugeot 208 1.0 Access gyda 3 drws – 8,000 milltir y flwyddyn.**

Mae ei gyflog presennol yn £18,000 ac mae'n aelod o gynllun pensiwn y GIG. Bydd angen iddo wneud aberth cyflog blynyddol (o'i gyflog gros) o £3,166.20 (£263.85 y mis) ond bydd yn arbed £91.93 y mis mewn Cyfraniadau Yswiriant Gwladol a Chyfraniadau Pensiwn a Threth Incwm o'i gymharu â'r sefyllfa ble mae cost y car cwmni'n cael ei ariannu o'i gyflog net. Mae hyn yn golygu bod y gost fisol wirioneddol tua £171.92 (dyma'r amcangyfrif o'r gostyngiad yn y tâl sydd yn y boced). O gyfuno'r swm hwn gyda'r rhwymedigaeth treth car cwmni ychwanegol o £20.52 y mis, cyfanswm cost net fisol y car yw £192.44.

Mae'r enghraifft isod yn esbonio, pe byddai'r gweithiwr yn ariannu cost y car o'i gyflog net, y gost fisol fyddai £351.29.

Mae'r enghraifft hon yn cynnwys cost prydlesu'r car, treth cerbyd, yswiriant llawn, yswiriant torri i lawr a'r holl gostau gwasanaethu a chynnal a chadw arferol.

| **GYDA'R CYNLLUN ABERTHU CYFLOG** | |
|---|---|
| Cost Flynyddol (aberth cyflog y flwyddyn) | £ 3,166.20 |
| Cost Fisol (aberth cyflog y mis) | £ 263.85 |
| Gostyngiad mewn Cyfraniadau Yswiriant Gwladol (y mis) | (£ 27.97) |
| Gostyngiad mewn Treth (y mis) | (£ 49.97) |
| Gostyngiad mewn Pensiwn (y mis) | (£ 13.99) |
| Cyfanswm y Gostyngiad (y mis) | (£ 91.93) |
| Gostyngiad mewn cyflog net (y mis) | £ 171.92 |
| Treth ar fuddion mewn da (y mis) | £ 20.52 |
| Cyfanswm Costau Net Misol Cyffredinol | ***£ 192.44*** |

| HEB Y CYNLLUN ABERTHU CYFLOG (h.y. TRWY DDIDYNIAD CYFLOG) |
|---|
| Y gost gyfatebol ar gyfer yr un car cwmni drwy ddidyniad cyflog fyddai **£351.29**<br>Mae'r gweithiwr felly'n arbed tua £159 y mis trwy aberth cyflog. (h.y. £351 - £192) |

## ENGHRAIFFT 3

**Mae gweithiwr yn dewis VW Golf 1.6 TDI 105 SE 5 drws – 10,000 milltir y flwyddyn.**

Mae ei gyflog presennol yn £27,000 ac mae'n aelod o gynllun pensiwn y GIG. Bydd angen iddo wneud aberth cyflog blynyddol (o'i gyflog gros) o £4,189.32 (£349.11 y mis) ond bydd yn arbed £131.97 y mis mewn Cyfraniadau Yswiriant Gwladol a Chyfraniadau Pensiwn a Threth Incwm, o'i gymharu â'r sefyllfa ble mae cost y car cwmni yn cael ei ariannu o'i gyflog net. Mae hyn yn golygu bod y gost fisol wirioneddol tua £217.14 (dyma'r amcangyfrif o'r gostyngiad yn y tâl sydd yn y boced). O gyfuno'r swm hwn gyda'r rhwymedigaeth treth car cwmni ychwanegol o £48.85 y mis, cyfanswm cost net fisol y car yw £266.00.

Mae'r enghraifft isod yn esbonio, pe byddai'r gweithiwr yn ariannu cost y car o'i gyflog net, y gost fisol fyddai £445.85.

Mae'r enghraifft hon yn cynnwys cost prydlesu'r car, treth cerbyd, yswiriant llawn, yswiriant torri i lawr a'r holl gostau gwasanaethu a chynnal a chadw arferol.

| **GYDA'R CYNLLUN ABERTHU CYFLOG** | |
|---|---|
| Cost Flynyddol (aberth cyflog y flwyddyn) | £ 4,189.32 |
| Cost Fisol (aberth cyflog y mis) | £349.11 |
| Gostyngiad mewn Cyfraniadau Yswiriant Gwladol (y mis) | (£ 37.01) |
| Gostyngiad mewn Treth (y mis) | (£ 63.54) |
| Gostyngiad mewn Pensiwn (y mis) | (£ 31.42) |
| Cyfanswm y Gostyngiad (y mis) | (£ 131.97) |
| Gostyngiad mewn cyflog net (y mis) | £ 217.14 |
| Treth ar fuddion mewn da (y mis) | £ 48.85 |
| Cyfanswm Costau Net Misol Cyffredinol | ***£ 266.00*** |

HEB Y CYNLLUN ABERTHU CYFLOG (h.y. TRWY DDIDYNIAD CYFLOG)

Y gost gyfatebol ar gyfer yr un car cwmni drwy ddidyniad cyflog net fyddai **£445.85**

Mae'r gweithiwr felly'n arbed tua £146 y mis trwy'r cynllun aberthu cyflog (h.y. £446 - £266)

## ENGHRAIFFT 4

**<u>Mae gweithiwr yn dewis Mini Cooper 1.5 D 3 drws – 12,000 milltir y flwyddyn.</u>**

Mae ei gyflog presennol yn £45,000 ac mae'n aelod o gynllun pensiwn y GIG. Bydd angen iddo wneud aberth cyflog blynyddol (o'i gyflog gros) o £3,835.68 (£319.64 y mis) ond bydd yn arbed £101.88 y mis mewn Cyfraniadau Yswiriant Gwladol a Chyfraniadau Pensiwn a Threth Incwm o'i gymharu â'r sefyllfa ble mae cost y car cwmni yn cael ei ariannu o'i gyflog net. Mae hyn yn golygu bod y gost fisol wirioneddol tua £217.76 (dyma amcangyfrif o'r gostyngiad yn y tâl sydd yn y boced). O gyfuno'r swm hwn gyda'r rhwymedigaeth treth car cwmni ychwanegol o £35.52 y mis, cyfanswm cost net fisol y car yw £253.28.

Mae'r enghraifft isod yn esbonio, pe byddai'r gweithiwr yn ariannu cost y car o'i gyflog net, y gost fisol fyddai £427.70.

Mae'r enghraifft hon yn cynnwys cost prydlesu'r car, treth cerbyd, yswiriant llawn, yswiriant torri i lawr a'r holl gostau gwasanaethu a chynnal a chadw arferol.

| **GYDA'R CYNLLUN ABERTHU CYFLOG** | |
|---|---|
| Cost Flynyddol (aberth cyflog y flwyddyn) | £ 3,835.68 |
| Cost Fisol (aberth cyflog y mis) | £ 319.64 |
| Gostyngiad mewn Cyfraniadau Yswiriant Gwladol (y mis) | (£ 8.77) |
| Gostyngiad mewn Treth (y mis) | (£ 64.34) |
| Gostyngiad mewn Pensiwn (y mis) | <u>(£ 28.77)</u> |
| Cyfanswm y Gostyngiad (y mis) | (£ 101.88) |
| Gostyngiad mewn cyflog net (y mis) | £ 217.76 |
| Treth ar fuddion mewn da (y mis) | £ 35.52 |
| Cyfanswm Costau  Net Misol Cyffredinol | ***£ 253.28*** |

<u>HEB Y CYNLLUN ABERTHU CYFLOG (h.y. TRWY DDIDYNIAD CYFLOG)</u>

Y gost gyfatebol ar gyfer yr un car cwmni trwy ddidyniad cyflog net fyddai **<u>£427.70</u>**

Mae'r gweithiwr felly'n arbed tua £175 y mis trwy'r cynllun aberthu cyflog (h.y. £428 - £253)

## ENGHRAIFFT 5

**Mae gweithiwr yn dewis VW Passat 1.6 TDI Bluemotion Tech Executive 4 drws – 14,000 milltir y flwyddyn.**

Mae ei gyflog presennol yn £65,000 ac mae'n aelod o gynllun pensiwn y GIG. Bydd angen iddo wneud aberth cyflog blynyddol (o'i gyflog gros) o £5,181.84 (£431.82 y mis) ond bydd yn arbed £210.65 y mis mewn Cyfraniadau Yswiriant Gwladol a Chyfraniadau Pensiwn a Threth Incwm o'i gymharu â'r sefyllfa ble mae cost y car cwmni yn cael ei ariannu o'i gyflog net. Mae hyn yn golygu bod y gost fisol wirioneddol tua £221.17 (dyma'r amcangyfrif o'r gostyngiad yn y tâl sydd yn y boced). O gyfuno'r swm hwn gyda'r rhwymedigaeth treth car cwmni ychwanegol o £127.44 y mis, cyfanswm cost net fisol y car yw £348.62.

Mae'r enghraifft isod yn esbonio, pe byddai'r gweithiwr yn ariannu cost y car o'i gyflog net, y gost fisol fyddai £563.14.

Mae'r enghraifft hon yn cynnwys cost prydlesu'r car, treth cerbyd, yswiriant llawn, yswiriant torri i lawr a'r holl gostau gwasanaethu a chynnal a chadw arferol.

| **GYDA'R CYNLLUN ABERTHU CYFLOG** | |
|---|---|
| Cost Flynyddol (aberth cyflog y flwyddyn) | £ 5,181.84 |
| Cost Fisol (aberth cyflog y mis) | £ 431.82 |
| Gostyngiad mewn Cyfraniadau Yswiriant Gwladol (y mis) | (£ 8.64) |
| Gostyngiad mewn Treth (y mis) | (£ 153.21) |
| Gostyngiad mewn Pensiwn (y mis) | (£ 48.80) |
| Cyfanswm y Gostyngiad (y mis) | (£ 210.65) |
| Gostyngiad mewn cyflog net (y mis) | £ 221.17 |
| Treth ar fuddion mewn da (y mis) | £ 127.44 |
| Cyfanswm Costau Net Misol Cyffredinol | ***£ 348.62*** |
| HEB Y CYNLLUN ABERTHU CYFLOG (h.y. TRWY DDIDYNIAD CYFLOG)<br>Y gost gyfatebol ar gyfer yr un car cwmni Trwy ddidyniad cyflog net fyddai **£563.14**<br><br>Mae'r gweithiwr felly'n arbed tua £310 y mis trwy'r cynllun aberthu cyflog (h.y. £563 - £253) | |

## Nodiadau ar yr enghreifftiau

Mae pob amcangyfrif yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gennych chi ar yr adeg benodol, a gallant fod yn destun newid os bydd y cwmnïau prydlesu'n newid eu prisiau neu os bydd newidiadau i gyfraddau Treth, Yswiriant Gwladol neu Bensiwn.

Sylwer nad yw'r enghreifftiau hyn yn ystyried yr effaith ar Gredyd Treth Gwaith na Chredydau Treth Plant, a allai olygu na fydd hi'n briodol i rai gweithwyr fod yn rhan o'r trefniadau a amlinellir yn y ddogfen hon gan y gallai'r golled o ran credydau treth fod yn fwy na'r arbedion mewn cyfraniadau treth/Yswiriant Gwladol. (Gweler hefyd "Beth os ydw i'n hawlio Credydau Treth?" ar dudalen 14.

**Faint alla' i ei arbed?**
Bydd yr union arbedion yn dibynnu ar amgylchiadau unigolion a'r car a ddewisir. Bydd tâl budd mewn da'r car cwmni, sydd wedyn yn destun treth incwm, yn cael ei gyfrifo ar sail rhestr brisiau gwneuthurwr y car cwmni a thâl % a benderfynir ar sail allyriadau pibell wacáu pob car penodol. Gellir dod o hyd i'r taliadau % perthnasol sy'n seiliedig ar allyriadau CO2, fel y rhagnodir gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi, ar www.vcacarfueldata.org.uk.

**Am ba hyd mae'r trefniant yn parhau?**
Bydd gweithwyr yn gallu mynd yn ôl at y cyflog uwch ar ddiwedd y cyfnod prydlesu (h.y. tair blynedd). Er y rhagwelir y bydd y trefniadau'n parhau yn y ffordd arferol i'r mwyafrif o weithwyr trwy gyfnod y brydles, bydd gweithiwr yn cael ei eithrio'n awtomatig o'r trefniadau hyn os bydd y trefniadau'n golygu bod ei gyfradd cyflog yn syrthio'n is na'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol. Bydd y weithred hon yn sicrhau bod hawl gweithiwr i gael cyfradd gyfreithlon o gyflog yn cael ei chynnal. Bydd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymry yn adolygu'r amodau unigol er mwyn penderfynu a oes angen codi tâl terfynu neu beidio.

**Beth yw effaith gyffredinol lleihau cyflog trethadwy?**
Dylai gweithwyr sy'n derbyn y cynnig hwn dalu llai o dreth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol ac felly, o ran cyflog net, dylai fod yn well ei fyd bob mis. Fodd bynnag, mae nifer o fudd-daliadau gwladol yn dibynnu ar dalu isafswm o gyfraniadau Yswiriant Gwladol, er enghraifft Tâl Salwch Statudol a Lwfans Ceisio Gwaith. Dylech ystyried yr effaith ar fudd-daliadau o'r fath yn y dyfodol os yw'r cynllun aberthu cyflog yn golygu bod eich enillion blynyddol gros newydd, diwygiedig yn syrthio'n is na'r lefel gychwynnol ar gyfer talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol. Am ragor wybodaeth ar lefel gychwynnol bresennol cyfraniadau Yswiriant Gwladol, cysylltwch â'r adran Gyflogres.

Dylai gweithwyr fod yn ymwybodol y gallai gostyngiad mewn cyflog trethadwy effeithio ar fudd-daliadau cwmni a budd-daliadau gwladol fel Tâl Mamolaeth Statudol, tâl salwch, a'r hyn y maent yn gymwys i'w dderbyn mewn achos o farwolaeth. Gallai gostyngiad mewn cyflog trethadwy hefyd effeithio ar faterion ariannol mwy cyffredinol fel ceisiadau am forgais; fodd bynnag, mae'r mwyafrif o fenthycwyr y stryd fawr yn ystyried y trefniadau a amlinellir yn y llyfryn hwn wrth wneud penderfyniadau am forgeisi, yn enwedig gan fod gan nifer o'r sefydliadau banc drefniadau tebyg eisoes ar waith ar gyfer eu gweithwyr eu hunain.

Byddai unrhyw daliadau eraill (h.y. yn ychwanegol at gyflog sylfaenol) fel lwfansau sifft, taliadau goramser a hawliau diswyddo yn parhau i gael eu cyfrifo ar sail y gyfradd cyflog uwch (h.y. y gyfradd cyn bod y cynllun aberthu cyflog yn berthnasol, a elwir yn aml yn "dâl tybiannol").

Caiff unrhyw godiad cyflog blynyddol ei nodi yn nhermau'r gyfradd tâl tybiannol uwch a'r gyfradd ddiwygiedig ar gyfer tâl sylfaenol. Mae'n bwysig nodi y rhoddir codiadau cyflog yn ôl canran drwy gyfeirio at y gyfradd tâl tybiannol uwch.

I osgoi amheuaeth (fel y nodir uchod), ni chaniateir i weithiwr ostwng ei gyflog trethadwy yn is na'r gyfradd Isafswm Cyflog Cenedlaethol (h.y. nes bod cyfradd newydd ei gyflog trethadwy'n cyfateb i lai na lleiafswm y gyfradd gyfreithlon yr awr). Efallai na fydd gweithwyr sydd eisoes yn cymryd rhan yn y Cynllun Aberthu Cyflog yn gymwys.

**Beth am fy nhrefniadau pensiwn?**
Mae'r ffaith bod eich cyflog cytundebol yn cael ei ostwng yn golygu y bydd lefel eich cyfraniad pensiwn yn cael ei ostwng ac felly'n arwain at gynnydd yn eich tâl yn y boced (h.y. bydd yn seiliedig ar y gyfradd tâl gros newydd, is). Yn achos Cynllun Pensiwn y GIG, ni fydd unrhyw effaith oni bai bod y cynllun aberthu cyflog yn cyd-redeg â'r cyfnod a ddefnyddir i gyfrifo eich hawl pensiwn. Ar gyfer mwyafrif staff y GIG, y cyflog a enillwyd yn y flwyddyn ddiwethaf o wasanaeth sy'n penderfynu ar daliadau pensiwn parhaus ar ôl ymddeol. Os dyma'r achos, bydd unrhyw aberth cyflog yn ystod y flwyddyn ddiwethaf o wasanaeth yn gostwng incwm ac yn cael effaith anffafriol ar yr hawl barhaol am bensiwn.

Caiff yr hawl barhaol am bensiwn ei phenderfynu gan yr incwm a dderbyniwyd yn naill ai:
• Un o'r tair blynedd diwethaf (fel arfer y flwyddyn ddiwethaf) cyn ymddeol, neu
• Cyfartaledd o'r 3 blynedd orau yn ystod y deng mlynedd diwethaf (fel arfer y 3 blynedd ddiwethaf) cyn ymddeol.

Bydd y pwynt cyntaf yn berthnasol i unrhyw un sydd wedi ymuno â Chynllun Pensiwn y GIG cyn 1 Ebrill 2008, bydd yr ail bwynt yn berthnasol i unrhyw un sy'n ymuno ar 1 Ebrill 2008 neu ar ôl hynny.

Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd cynllun aberthu cyflog sydd yn ei le yn ystod y cyfnod a ddefnyddir i benderfynu ar hawl barhaol am bensiwn, unwaith eto'n cael effaith ar y pensiwn a dderbynnir.

Pan fydd gweithiwr yn gadael cynllun pensiwn y GIG ac yn rhewi eu hawl am bensiwn, gall gwerth y pensiwn sydd wedi ei rewi gael ei effeithio os yw gweithiwr yn cymryd rhan yn y cynllun aberthu cyflog yn union cyn gadael y cynllun pensiwn.

Gallai'r cynllun aberthu cyflog effeithio ar yr hawl barhaol am bensiwn lle mae aelod o staff yn mynd yn ddifrifol sâl ac angen cymryd ymddeoliad meddygol neu'n marw yn y swydd. Mewn amgylchiadau o'r fath, caiff yr hawl am bensiwn ei phenderfynu gan lefel yr incwm yn y 12 mis blaenorol ac felly gallai'r ffaith fod cynllun aberthu cyflog yn ei le effeithio ar hyn.

Cyhoeddodd y Llywodraeth y byddai trefniadau pensiwn newydd yn cael eu cyflwyno i holl gynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus, gan gynnwys Cynllun Pensiwn y GIG, o 31 Mawrth 2015. Mae llawer o'r manylion yn cael eu trafod o hyd ond bydd Cynllun Pensiwn y GIG yn newid o gynllun cyflog penodol i gynllun Enillion Cyfartalog Cyflog Gyrfa wedi'u Hailbrisio. Er y bydd rhai aelodau o Gynllun Pensiwn y GIG yn cael caniatâd i barhau yn eu hadran bresennol o Gynllun Pensiwn y GIG y tu hwnt i 31 Mawrth 2015, bydd y rhan fwyaf o'r aelodau'n symud ymlaen yn awtomatig i'r cynllun newydd Enillion Cyfartalog Cyflog Gyrfa wedi'u Hailbrisio o 1 Ebrill 2015 ar gyfer gwasanaeth yn y dyfodol yn unig. Mae hyn yn golygu y bydd buddion pensiwn a adeiladwyd eisoes yn adrannau 1995 a 2008 y Cynllun Pensiwn yn cael eu cadw a'u cyfrifo drwy gyfeirio at gyflog terfynol wrth ymddeol.

Fel y nodwyd uchod, bydd y pensiwn y byddwch yn ei dderbyn dan Gynllun Pensiwn cyflog terfynol presennol y GIG ar gyfer eich holl flynyddoedd o aelodaeth, ond fe fydd yn seiliedig ar eich cyflog pensiynadwy ar adeg eich ymddeoliad neu yn agos ato. Dan gynllun newydd Pensiwn y GIG, sef Enillion Cyfartalog Cyflog Gyrfa wedi'u Hailbrisio, bydd eich pensiwn yn seiliedig ar eich hawl am gyflog pensiynadwy ar draws eich gyrfa yn y GIG.

Mae'r pensiwn yr ydych yn ei ennill bob blwyddyn yn seiliedig ar eich cyflog pensiynadwy yn y flwyddyn honno a chaiff ei gynyddu gan gyfradd ail-werthuso osodedig, yn gysylltiedig â chwyddiant, ar gyfer pob blwyddyn hyd at ymddeoliad neu adael. Caiff y pensiwn terfynol ei gyfrifo wedyn trwy ychwanegu'r pensiwn a enillwyd ym mhob blwyddyn o fod yn aelod o Gynllun Pensiwn y GIG, fel na fydd wedi'i gyfyngu i'r cyfnod yn union cyn ichi ymddeol neu adael, fel sy'n wir o dan Gynllun Pensiwn cyflog terfynol presennol y GIG.

Mae'r sylfaen gyfrifo newydd hon ar gyfer hawl pensiwn terfynol yn golygu bod unrhyw aberth cyflog sy'n bodoli yn ystod eich aelodaeth o'r Cynllun Pensiwn GIG newydd, sef Enillion Cyfartalog Cyflog Gyrfa wedi'u Hailbrisio, yn gostwng eich enillion pensiwn bob blwyddyn ac, felly, yn effeithio ar eich hawl terfynol am bensiwn. Argymhellir, felly, eich bod yn cael cyngor er mwyn deall yr effaith y bydd unrhyw gynllun aberthu cyflog yn ei chael ar eich hawl benodol am bensiwn cyn i chi ymuno â'r Cynllun Prydlesu Car. Gellir cael y cyngor hwn gan Bensiynau GIG ar 0300 3301 346.

**Beth os ydw i'n hawlio Credydau Treth**

O Ebrill 2003 cyflwynodd y llywodraeth gredydau treth, Credyd Treth Gwaith a Chredyd Treth Plant. Mae'r Credyd Treth Gwaith yn destun prawf modd ac yn effeithio ar faint o Gredyd Treth Plant y gallech ei dderbyn. Mae'r credydau treth hyn yn ystyried eich enillion chi a rhai eich priod/partner.

Mewn egwyddor, ystyrir buddion car cwmni mewn da yn enillion at bwrpas Credyd Treth Gwaith. O ganlyniad, mae sefyllfa pob gweithiwr yn wahanol ac mae'n angenrheidiol ystyried cyflog eich priod/bartner er mwyn amcangyfrif yr effaith fwyaf realistig yn sgil cyfranogi yn y trefniadau hyn.

Os ydych yn gymwys am fuddion gwladol fel Credyd Treth Person Anabl, efallai eich bod yn gymwys am lefel uwch o gredyd.

***Os ydych yn hawlio Credyd Treth Gwaith neu Gredyd Treth Plant ar hyn o bryd, dylech ystyried yn ofalus iawn yr effaith debygol ar eich incwm net defnyddadwy cyn ymrwymo i unrhyw aberth cyflog***

# Salwch Hir Dymor, Cyfnod Mamolaeth, Diswyddiad, Ymddiswyddiad neu Ymddeoliad

Mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn cydnabod efallai y bydd gan weithwyr nad ydynt yn gallu gweithio o achos salwch neu anabledd, neu sy'n cymryd cyfnod mamolaeth yn ystod cyfnod o gytundeb prydles, bryderon am fod yn meddu ar gar ar brydles. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd gan weithiwr nad yw'n gallu bod yn bresennol yn y gwaith oherwydd salwch neu anabledd am gyfnod dros 6 mis, neu sy'n cymryd cyfnod mamolaeth yr opsiynau canlynol:

**Opsiwn 1** – Dychwelyd y car a thalu'r ffi terfynu'n gynnar. (Bydd rhaid i'r gweithiwr dalu'r holl gostau sy'n gysylltiedig â difrod neu filltiroedd ychwanegol).

**Opsiwn 2** - Parhau i dalu am y car ar sail didyniad* cyflog net (neu archeb sefydlog).

Os ydych yn disgwyl babi ac yn ystyried ymuno â'n Cynllun Prydlesu Car, rhaid i chi fod yn ymwybodol y gallai eich Tâl Mamolaeth Statudol a Thâl Mamolaeth Galwedigaethol (lle y bo'n berthnasol) gael eu heffeithio.

Caiff Tâl Mamolaeth Statudol a Thâl Mamolaeth Galwedigaethol eu cyfrifo ar sail cyfartaledd enillion wythnosol yn ystod y cyfnod o 8 wythnos, bymtheg wythnos cyn y dyddiad esgor disgwyliedig (wythnosau 17 hyd 25 o'r beichiogrwydd). Bydd trefniant "aberthu cyflog" (fel y Cynllun Prydlesu Car) yn lleihau faint o gyflog sy'n atebol am Gyfraniadau Yswiriant Gwladol.

Felly, bydd unrhyw gynllun "aberthu cyflog" a drefnir yn ystod y cyfnod hwn o wyth wythnos yn lleihau'r hawl am Dâl Mamolaeth Statudol a Thâl Mamolaeth Galwedigaethol (lle y bo'n daladwy). Os ydych yn feichiog ac yn disgwyl cael cyfnod mamolaeth, dylech feddwl yn ofalus iawn ynglŷn ag a ydych eisiau ymuno â'r Cynllun Prydlesu Car yn ystod y cyfnod hwn (cysylltwch â'ch adran Cyflogres am ragor o fanylion gan gynnwys cyngor ar Gyfnod Mabwysiadu a Thadolaeth).

Os ydych yn derbyn naill ai Tâl Mamolaeth Statudol a Thâl Mamolaeth, Mabwysiadu neu Dadolaeth, dylech gysylltu â'r adran Gyflogres i gael gwybod a ydych yn derbyn digon o incwm i ymuno â threfniant "aberthu cyflog " a chymryd rhan yn y Cynllun Prydlesu Car, ar ôl ystyried eich ymrwymiadau ariannol eraill y cânt eu didynnu o'ch cyflog tra eich bod ar gyfnod mamolaeth, cyfnod mabwysiadu neu gyfnod tadolaeth.

Caiff ffioedd terfynu eu cyfrifo ar broffil 5, 3, 1 sy'n cyfateb i'r taliadau aberthu cyflog gros misol. Er enghraifft, os byddwch yn dychwelyd cerbyd ym mlwyddyn 1 y cytundeb, mae'r ffi terfynu'n debygol o gyfateb i 5 taliad gros, os byddwch yn dychwelyd y cerbyd yn ail flwyddyn y brydles, yna mae'r ffi terfynu yn debygol o gyfateb i 3 thaliad gros ac os caiff y cerbyd ei ddychwelyd ym mlwyddyn olaf y cytundeb, mae'r ffi terfynu yn debygol o gyfateb i 1 taliad gros. Cysylltwch â NHS Fleet Solutions yn uniongyrchol ar 08448 118 228 i gael gwybod beth yw eich union ffi terfynu.

Sylwer na ellir talu'r ffi terfynu drwy gynllun aberthu cyflog ac fe gaiff ei dynnu o'ch cyflog net.

***(PWYSIG- Mae'r gyfradd ddidynnu cyflog net yn debygol o fod ar gyfradd uwch na'r gyfradd aberthu cyflog).**

Pe byddech yn ymddeol oherwydd salwch neu'n marw yn y swydd neu'n cael eich diswyddo, bydd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn talu unrhyw gostau'n ymwneud â therfynu'n gynnar. Mae'r gweithiwr yn atebol am dalu'r costau terfynu'n gynnar mewn unrhyw amgylchiadau eraill (e.e. ymddeoliad arferol).

# Yswiriant

Bydd gan y car yswiriant llawn ar gyfer pwrpasau cymdeithasol, domestig, pleser, teithio a busnes Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a defnydd preifat o dan delerau'r yswiriant a ddelir gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.

Gellir cynnwys hyd at 4 gyrrwr a enwir ar y polisi yswiriant (ni ellir yswirio unrhyw yrwyr a enwir o dan 21 oed ar y cerbyd). Mae Telerau ac Amodau'r yswiriant yn agored i'w newid yn flynyddol pan fydd y polisi yn cael ei adnewyddu; mae newidiadau o'r fath y tu hwnt i reolaeth NHS Fleet Solutions neu eich cyflogwr.

Sylwer - nid yw'r car ond wedi ei yswirio ar gyfer pwrpasau busnes Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Os oes angen defnyddio'r car ar gyfer unrhyw ddefnydd busnes arall, rhaid gwneud cais ffurfiol i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ac os cytunir i hyn, bydd angen i chi wneud trefniadau yswirio eraill.

Os bydd unrhyw ddigwyddiad yn arwain at hawlio yn erbyn yr yswiriant, bydd y gweithiwr yn atebol am unrhyw beth sy'n ychwanegol at bolisi'r yswiriant. Os yw amgylchiadau'r hawliad yn caniatáu'r yswiriwr i Adfer Colledion sydd Heb eu Hyswirio yn llwyddiannus ar ran y gyrrwr, caiff y gweithiwr ei ad-dalu. Os caiff y car ei ddwyn neu ei ddifrodi y tu hwnt i'w atgyweirio'n economaidd, bydd angen i chi barhau â'ch taliadau hyd nes bod y cwmni yswiriant wedi datrys yr hawliad. Yn y ddau achos hyn, ni ddarperir car arall. Mae lefelau ychwanegol y polisi wedi eu gosod gan yr yswirwyr ac maent yn amrywio yn ôl oed a phrofiad gyrru.

Os gwneir gwaith atgyweirio ar eich car, bydd angen i chi dalu'r hyn sy'n ychwanegol i'r polisi yn uniongyrchol i'r garej cyn casglu'r cerbyd.

Fel rhan o'r gwasanaeth rydym yn ei gynnig, mae gennych hawl ar unrhyw adeg i ganiatáu pedwar gyrrwr a enwir i yrru'r car prydles ar y polisi yswiriant (ar yr amod bod pob gyrrwr a enwir dros 21 oed). Fel pob polisi yswiriant, gallai bod yn rhan o ddigwyddiad traffig arwain at y gyrrwr yn gorfod talu'r hyn sy'n ychwanegol at y polisi yswiriant tuag at atgyweirio'r cerbyd.

Mae ein cyfraddau ychwanegol i'r polisi yn dibynnu ar amgylchiadau unigol fel oed, collfarnau a damweiniau blaenorol lle bu'r gyrrwr ar fai. Isod, mae'r system y mae ein cwmni yn ei defnyddio sy'n penderfynu ar y tâl sy'n ychwanegol at bolisi'r yswiriant, y bydd y gyrrwr yn atebol am ei dalu. I bob gyrrwr dan 23 oed, mae ein system pwyntiau'n cynyddu 50%.

Os byddwch yn colli eich trwydded gyrru am unrhyw reswm, rhaid i chi roi gwybod i NHS Fleet Solutions yn ysgrifenedig yn syth.

**Ein cyfradd ychwanegol arferol yw £250 (i weithwyr a gyrwyr a enwir); fodd bynnag, mae'r gyfradd safonol yn newid ar gyfer gyrwyr newydd ac ifanc.**

| Gyrwyr Ifanc a Gyrwyr Newydd | Cyfradd ychwanegol safonol |
|---|---|
| Unrhyw yrrwr dan 25 oed | £500 |
| Unrhyw yrrwr dros 25 oed ond sydd â thrwydded lawn ers llai na blwyddyn | £400 |
| Pwyntiau | Cyfradd ychwanegol |
| 0-2 | Cyfradd ychwanegol safonol |
| 3-5 | Cyfradd ychwanegol safonol a £200 |
| 5-6 | Cyfradd ychwanegol safonol a £400 |
| 7-9 | Cyfradd ychwanegol safonol a £600 |
| 10-12 | Cyfradd ychwanegol safonol a hyfforddiant gyrrwr |
| 12+ | Cyfeiriad at y cwmni yswiriant |
| **Codau collfarnau** | **Pwyntiau** |
| CU10-60, LC20-50, MS10-40 a 60-90, MW10, PC10-30, SP10-60, TS10-70 | 1 |
| CU80, CD10-30 | 3 |
| AC10-30, BA10-30, IN10, MS50, TT99, XX99 | 8 |
| DR10-90, UT10-50, CD40-71, DD30-80 | 10 |

| **Damweiniau** | **Pwyntiau** |
|---|---|
| Un ddamwain trwy fai mewn 3 blynedd | 1 |
| 2 ddamwain trwy fai mewn 3 blynedd | 3 |
| 3 damwain trwy fai mewn 3 blynedd | 8 |
| 4 neu ragor o ddamweiniau trwy fai mewn 3 blynedd | 10 |

**Enghreifftiau**

Y gyfradd ychwanegol i yrrwr 21 oed heb bwyntiau ac sydd â thrwydded ers llai na blwyddyn fyddai £500

Y gyfradd ychwanegol i yrrwr 25 oed heb gollfarnau na damweiniau, a thrwydded lawn am 6 blynedd fyddai £250 (0 pwynt)

Y gyfradd ychwanegol i yrrwr 28 oed gyda DR10 a dim damweiniau fydd £850 a hyfforddiant gyrrwr am gost o £280 (10 pwynt)

Gellir trafod unrhyw amgylchiadau unigol ag un o'r tîm prydlesu ar 08448118228

## Atgyweiriadau Gwasanaeth a Thorri Lawr

Mae'r holl wasanaethu ac atgyweiriadau arferol sy'n codi o ddefnydd arferol wedi eu cynnwys yn y taliad misol. Rhaid i'r gweithiwr sicrhau bod gwiriadau wythnosol fel pwysau teiars, lefelau olew ac oeryddion, lefelau hylif brêc, lefel hylif golchi'r ffenest flaen ac archwiliad gweledol o oleuadau, corff y car a'r ffenest flaen wedi eu gwneud.

Mae gan y gweithiwr ddyletswydd i sicrhau bod y car yn cael ei gynnal a'i gadw yn iawn ac yn gyson, yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr a'r cwmni prydlesu. Asiantwyr a gymeradwywyd yn unig ddylid eu defnyddio. Rhaid i'r gweithiwr gydymffurfio â phob cais rhesymol gan y Cwmni Prydlesu neu'r Rheolwr Trafnidiaeth er mwyn sicrhau bod gwaith cynnal a chadw a gwasanaethu yn cael ei wneud yn gywir ac yn gyflym. Ar gyfer atgyweiriadau, cysylltwch â NHS Fleet Solutions am gyngor. Yn sgil difrod a achosir gan gamddefnydd, esgeulustod neu draul a gwisgo eithriadol, codi tâl ar y gweithiwr. Bydd gan bob car yswiriant torri i lawr.

Mae'r canlynol yn eithriadau o yswiriant torri lawr y cwmni prydlesu a byddant yn golygu bod y gyrrwr yn talu.
• Achosion o dorri lawr nad ydynt yn fecanyddol allai fod wedi eu hosgoi gan y gyrrwr
• Tanwydd llygredig
• Rhedeg allan o danwydd
• Wedi eich cloi allan
• Newid olwyn - pan na fydd yr olwyn sbâr ar gael
• Ail alwad allan ar gyfer batri y dywedwyd ei fod yn ddiffygiol eisoes gan gerbyd patrôl
***(Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr)***

## Y Milltiroedd yn y Cytundeb

Bydd y gweithiwr yn penderfynu ar gyfanswm priodol y milltiroedd (pro rata) sydd i'w cyflawni yn ystod cyfnod y brydles ac, yn y pendraw, bydd y gweithiwr yn atebol am unrhyw dâl am filltiroedd ychwanegol pan fydd wedi mynd dros drothwy'r milltiroedd (pro rata). Mae'r gyfradd dâl ychwanegol am filltiroedd yn dibynnu ar y car penodol ond mae'n debygol o fod o gwmpas 7c y filltir (a TAW). Ar ddiwedd y cyfnod prydlesu, os yw'r milltiroedd blynyddol cyfartalog (pro rata) yn llai na'r milltiroedd blynyddol y cytunwyd arnynt (pro rata), ni fydd y gweithiwr yn gymwys am ad-daliad.

## Taliadau

Bydd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn caniatáu i weithwyr dalu am brydles eu car drwy gynllun aberthu cyflog cytunedig.

Bydd pob tâl arall a godir ar Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn achos car prydles y gweithiwr yn cael eu casglu o'i gyflog net, er enghraifft:

- Costau milltiroedd ychwanegol
- Costau terfynu prydles

- Costau gweinyddol Cwmni Prydlesu sy'n gysylltiedig â goryrru neu ddirwyon parcio neu unrhyw ddyletswydd weinyddol arall a wnaed
- Taliadau am ddifrod nad oedd wedi ei yswirio
- Costau oherwydd esgeulustod, cam-drin neu gynnal a chadw'r cerbyd yn wael
- Costau sy'n ychwanegol i'r polisi yswiriant
- Dirwyon parcio a chostau tagfeydd
- Bydd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn tynnu unrhyw gostau hyd at £100 o'ch cyflog

***(Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr)***

## Defnydd Busnes

Caiff gweithwyr sy'n defnyddio Car Prydles ar gyfer busnes Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru eu had-dalu yn unol â Chyfraddau Defnyddwyr Safonol ar gyfer Milltiroedd Busnes sydd, ar hyn o bryd, yn 67c y filltir (o Chwefror 2014). Mae Cyfraddau Tanwydd Cynghorol Ceir Cwmni Cyllid a Thollau EM wedi eu gosod rhwng 12c a 24c y filltir (o Chwefror 2014). Bydd cyflogwyr felly yn atebol am dalu treth ar y gwahaniaeth rhwng Cyfraddau Tanwydd Cynghorol Ceir Cwmni Cyllid a Thollau EM a'r Gyfradd Defnyddiwr Safonol a delir.

## Tâl graddfa tanwydd

Caiff unrhyw deithio o'r cartref i'r lleoliad (gan gynnwys milltiroedd ychwanegol o ganlyniad i newid lleoliad a newid lleoliad sefydliadol) ei ddiffinio dan reolau Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi fel defnydd preifat o gar prydles neu gar cwmni, a bydd y budd tanwydd car yn berthnasol. I bob pwrpas, mae hyn yn golygu y byddai unrhyw un sy'n hawlio milltiroedd o'r cartref i'r gwaith am unrhyw reswm yn destun taliadau treth ychwanegol sy'n codi o'r tâl budd tanwydd. (Ymhlith yr enghreifftiau o filltiroedd o'r cartref i'r gwaith y mae teithio ychwanegol, teithio ar alw, teithio goramser, teithio ar ôl cael eich galw yn ôl i'r gwaith, dychwelyd i'r gwaith mewn argyfwng. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr.)

## Diwedd y Cytundeb

Ar ddiwedd cytundeb y brydles, dylai'r car gael ei ddychwelyd i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Gan gymryd nad oes unrhyw ddifrod (yn ychwanegol at draul dderbyniol) ac ni aethpwyd dros filltiroedd y cytundeb, ni fydd tâl pellach. Byddwch yn rhydd i drefnu car prydles newydd cyn y dyddiad terfynu er mwyn sicrhau bod danfon y car newydd yn digwydd ar yr un pryd â'r dyddiad ar gyfer dychwelyd y car presennol.

## Camau nesaf

Os byddwch yn dymuno manteisio ar yr opsiwn hwn, ei drafod ymhellach, neu am ddod o hyd i'r dewis eang o geir sydd ar gael o fewn y trefniadau hyn, cysylltwch â NHS Fleet Solutions drwy e-bost ar **enquiry@nhsfleetsolutions.co.uk** neu drwy ffonio ar: **0844 811 82 28** neu ewch i'n gwefan ar: **www.nhsfleetsolutions.co.uk** bydd gofyn i gofrestru ar ein gwefan gan ddefnyddio VPD X45.